



Cyflogadwyedd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd

Mae cyflogadwyedd wrth wraidd ein Cenhadaeth. Ein nod yw gwneud yn siŵr eich bod yn cael cefnogaeth wrth feithrin gwybodaeth, sgiliau, priodoleddau a phrofiadau a fydd yn aros gyda chi drwy eich oes, ac yn eich galluogi i wneud cyfraniad gweithredol i'r economi ac i gymdeithas. Dyma ychydig o bethau rydym yn eu cynnig i'n myfyrwyr yng Nghaerdydd:*

Eich Cwrs

Rydym yn ymfalchïo yn eich gallu i gynnig [cyrsiau](#) o safon uchel, blaengar, gyda llawer ohonynt yn arwain at gymwysterau proffesiynol. Mae pob cwrs yn paratoi myfyrwyr at astudio ar lefel uwch yn ogystal â gofynion y gweithle modern.

- Mae staff yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr, cyrff proffesiynol ac arbenigwyr, gan wneud yn siŵr bod cyrsiau'n adlewyrchu'r byd sy'n newid mor gyflym; ac mae'r darlithwyr yn ymchwilio i faterion y byd go iawn ac yn dod â'r wybodaeth honno yn ôl i'r cwricwlwm.
- Mae dulliau addysgu, dysgu ac asesu arloesol yn eich helpu i ymchwilio i theori yn ymarferol a datblygu sgiliau pwnc ymarferol ynghyd â'r Priodoleddau Graddedigion allweddol canlynol: Datrys problemau a gallu i Ddadansoddi; Sgiliau rhyngpersonol a Rhwydweithio; Dinasyddiaeth Fyd Eang; Hyblygrwydd ac Addasu; Cyfathrebu Effeithiol a Chreadigrwydd ac Arloesedd.
- Mae Cynllunio Datblygiad Personol wrth wraidd eich cwrs, gan eich helpu i nodi eich anghenion datblygu, adlewyrchu ar eich profiadau a chadw cofnod o'ch cyflawniadau mewn Ffeil Cynnydd neu e-bortffolio.

Profiad Gwaith

Gall profiad gwaith sydd wedi'i ddewis yn ddoeth helpu i lywio eich cynlluniau gyrfa, dangos eich sgiliau i gyflogwyr, gwella eich hyder a rhoi hwb i'ch graddau academiaidd. Dyma pam bod Met Caerdydd yn cynnig y canlynol:

- [Gwefan Profiad Gwaith](#) benodedig.
- Profiad gwaith wedi'i achredu a chyfleoedd gwirfoddoli o fewn bron pob cwrs israddedig, gyda chefnogaeth ar bob cam o'r ffordd.
- Ar ôl graddio, ceir cyfleoedd i gymhwyso eich dysgu i'r gweithle drwy'r [Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth](#).

Gweithgareddau Allgyrsiol

Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn gyfle i gael ychydig o hwyl, gwneud ffrindiau newydd a datblygu sgiliau a phrofiadau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi'n fawr. Ym Met Caerdydd, cynigir y rhain drwy:

- [Undeb y Myfyrwyr](#), ee clybiau a chymdeithasau, rolau swyddogion a llysgenhadon a System Cyflogadwyedd UMAX.
- Cysylltiadau cryf â chynlluniau gwaith yn ystod y gwyliau a sefydliadau gwirfoddoli.

Cynllunio Gyrfa a Chyflogaeth

Mae marchnad cyflogaeth heddiw yn gymhleth iawn felly ym Met Caerdydd mae gennym amrywiaeth o wasanaethau i'ch helpu i adnabod neu greu eich llwybr gyrfa eich hun, a'ch cefnogi wrth gymryd y camau cyntaf:

- Cyngor gyrfa diduedd wyneb yn wyneb ac ar-lein i fyfyrwyr a graddedigion, wedi'u personoli i fodloni eich anghenion a'ch dyheadau.
- Addysg gyrfaedd wedi'i deilwra i gyrsiau ac a gefnogir gan ein e-fodiwl gyrfaedd rhyngweithiol.
- Gwybodaeth gyrfaedd ar [wefan](#) gynhwysfawr.
- Hysbysebion swyddi rhan amser, swyddi gwyliau a swyddi i raddedigion, yn ogystal a phrofiad gwaith a gwirfoddoli, hysbysebwyd ar lein yr adran [Canolbwynt Gyrfaedd](#) a [Siop Swyddi](#) Undeb y Myfyrwyr.
- Cyfleoedd i gwrdd â chyflogwyr ar y campws drwy ddolenni cwrs, cyflwyniadau, ffeiriau ac ymweliadau.
- Rhaglen Wythnos Sgiliau a datblygu cyflogadwyedd i [fyfyrwyr ymchwil](#).
- Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau busnes - neu sefydlu eich busnes eich hun - drwy hyfforddiant, mentora, cymorth dechrau busnes ymarferol a chymorth ariannol. Ymhlith y rhain mae: modiwlau busnes yn seiliedig ar gyrsiau; a'r [Ganolfan Entrepreneuriaeth i Fyfyrwyr](#).

Hygyrchedd

Rydym yn ymrwymedig i wneud ein holl wasanaethau, cyfleusterau a phrofiadau dysgu mor hygyrch â phosibl ac i gefnogi pob myfyriwr i wireddu ei botensial llawn. Mae [Gwasanaethau Myfyrwyr](#) hefyd yn cynnig cynghorwyr proffesiynol arbenigol a fydd yn eich cefnogi drwy gydol eich astudiaethau.

Ar ôl Graddio

Mae digon o gefnogaeth i chi ar ôl i chi raddio. Gweler ein tudalennau [Gyrfaedd](#), [Cyn-fyfyrwyr](#), a [Canolfan Dysgu Seiliediig ar Waith](#) i gael rhagor o fanylion.

**Efallai na fydd rhai cyfleoedd ar gael i fyfyrwyr rhyngwladol. Ar gyfer sefydliadau cydweithredol mae gennym ddatganiadau o hawl.*